# Tîm Dyslecsia

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Syndrom Sensitifedd Sgotopig

Rydym ar y Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld cynghorwr:

**Ffôn:** **01248 383620**
**E-bost:** gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/dyslexia.php.cy

**Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau**



Mae **Sensitifedd Sgotopig**, a elwir hefyd yn **Sensitifedd Gweledol** neu **Syndrom Meares Irlen**, yn effeithio ar y ffordd y mae'r ymennydd yn prosesu a dehongli gwybodaeth weledol. Nid yw'n broblem optegol ond mae'n tarfu ar y golwg ac yn achosi annifyrrwch.

Dyma rai o nodweddion amlwg y syndrom hwn:

- Pethau i'w gweld yn afluniaidd, straen ar y llygaid a chur pen mewn mannau wedi'u goleuo'n llachar, neu wrth ddarllen testun gyda chyferbyniadau cryf, megis print du ar gefndir gwyn.
- Print sy'n ymddangos yn aneglur: gall ddiflannu neu ymddangos fel petai'n symud; gall edrych yn droellog, neu gall y bylchau gwyn rhwng geiriau sefyll allan fel afonydd llachar. Oherwydd hynny gall fod yn anodd dal ati i ddarllen yn gywir.
- Gall darllen fod yn flinedig iawn oherwydd yr anghysur i'r golwg, a'r ynni a'r canolbwyntio sydd ei angen i ddod dros y straen i'r golwg.
- Gall problemau gyda dirnad pa mor bell yw pethau oddi wrth ei gilydd, a faint o le sydd rhwng pethau, arwain at drafferthion gyda chwaraeon pêl, gyrru car, defnyddio grisiau, grisiau symudol neu ddrysau sy'n cylchdroi.

**Gwasanaethau Anabledd**

Gelli'r lleihau effeithiau sensitifedd gweledol drwy wneud y canlynol:

- Gwisgo sbectol gyda gwydrau lliw arbennig ynddi.
- Argraffu nodiadau darlithoedd ar bapur lliw.
- Defnyddio troshaen blastig lliw i ddarllen.
- Newid lliw'r cefndir ar sgrin wrth weithio ar gyfrifiadur neu offer technolegol arall.

Cewch fwy o wybodaeth am **Sensitifedd Sgotopig** yn: http://www.irlenuk.com

matrix® quality standard for information advice and guidance services approved by the matrix Accreditation Body

**Gwasanaethau Anabledd**